Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Canolfan Deulu y Bala

**Hen Ysgol Beuno Sant**
**Heol y Castell**
**Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7UU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Canolfan Deulu y Bala

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Canolfan Deulu y Bala |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Canolfan Deulu y Bala |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Stacy Galdo |
| Person â gofal | Lisa Jones Michelle Gregory Angharad Jones Louisa Phillips |
| Nifer y lleoedd | 100 |
| Amrediad oedran y plant | 0 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 07:30 – 18:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolwg cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolwg cyntaf. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 23/04/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Cynyddu’r cyfleoedd i’r plant ddatblygu eu medrau digidol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â phartneriaethau cynaliadwy ac effeithiol i’w ledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae plant yn dangos diddordeb a rhyfeddod mewn darganfod. Mae ganddynt lais cryf sy'n cael effaith uniongyrchol ar fywyd dydd-i-ddydd y lleoliad. Er enghraifft, mae plant yn archwilio'r ardal awyr agored er mwyn dod o hyd i fwy o adnoddau i ddefnyddio fel cynhwysydd i gasglu a throsglwyddo dŵr. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau aeddfed am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis a ydyn nhw eisiau chwarae y tu mewn neu tu allan i’r adeilad, gyda llif rhydd yn cael ei hyrwyddo bob amser. Mae plant yn mynegi eu hunain yn arbennig o dda, er enghraifft wrth egluro bod y lindys yn creu cacŵn cyn iddo droi’n bili-pala. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gwybod y bydd yr ymarferwyr bob amser yn gwrando ar eu syniadau a'u barn. O ganlyniad, mae plant yn ymgysylltu’n rheolaidd mewn rhyngweithiadau o ansawdd uchel a phwrpasol.

Mae bron pob un o’r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu’n arbennig o dda. Maent yn ymdopi’n eithriadol o dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni, a phan fydd newid y neu gweithgareddau. Mae gan y plant berthnasoedd cynnes, agos gyda’i gilydd a gyda’r ymarferwyr. Mae'r plant yn chwarae ochr a’i yn ochr yn hynod aeddfed, gan gyfrannu’n naturiol at drafodaethau ysgogol a llawn dychymyg. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfarwyddiadau i’r ymarferwyr trwy ddilyn rysáit gwneud toes ac yn trafod cymryd tro wrth ddefnyddio’r rhaw i lenwi’r trelar gyda thywod. Mae bron pob un o’r plant yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau’n ardderchog, er enghraifft maent yn

deal pwysigrwydd cymryd eu tro ac wrth helpu i dacluso. Mae bron pob un yn arddangos moesau rhagorol ac yn mynegi eu diolch i'r oedolion heb fawr o anogaeth.

Mae bron pob plentyn yn weithgar ac yn cymryd rhan amlwg a llawn yn eu chwarae a’u dysgu gan ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos pwrpas a chwilfrydedd wrth gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Maent yn datrys problemau wrth adeiladu tŵr tra bod eraill yn archwilio deunyddiau trwm ag ysgafn gan ddefnyddio’r glorian. Maent yn elwa o rai arferion strwythuredig yn ogystal â'r rhyddid i symud o gwmpas a dewis eu gweithgareddau eu hunain dan do ac yn yr awyr agored. Mae bron bob un o’r plant yn llawn brwdfrydedd i ddechrau chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau a’u gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn dewis cwblhau tasgau datblygu cysyniadau rhif cyn symud i gael amser tawel yn y gornel ddarllen. Maent yn dilyn eu dewisiadau personol yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o’r plant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth cynyddol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant iau yn helpu i dacluso a cheisio bwydo eu hunain. Mae'r plant hŷn yn golchi eu dwylo, defnyddio cyfleusterau’r toiledau ac yn dewis pryd i gael amser tawel ac ymlacio yn annibynnol. Mae'r plant yn dewis os ydynt am helpu gyda phethau fel paratoi ar gyfer amser byrbryd ac yn gallu gweini eu prydau eu hunain. Mae rhan fwyaf yn defnyddio cyllyll a ffyrc yn briodol. Mae pob plentyn yn hyderus i ymgysylltu â chymorth gan ymarferwyr pan fyddant yn teimlo bod angen help oedolyn arnynt.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob un o’r plant yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn. Mae’r rhan fwyaf yn mynegi eu teimladau a’u hemosiynau yn briodol. Maent yn mynd i eistedd ar y mat i gofrestru ac yn arddangos sgiliau canolbwyntio da iawn wrth drafod rheolau llond llaw. Mae bron bob un yn defnyddio iaith arwyddo syml wrth ganu ar ddechrau sesiwn.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith briodol i ddwyn straeon i gof. Er enghraifft maent yn mwynhau sgwrsio am sut mae lindys yn datblygu gan ddefnyddio geirfa addas yn hyderus. Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio geiriau Cymraeg ar gyfer rhifau a lliwiau. Mae ychydig ohonynt yn mynegi eu hunain yn fwy estynedig mewn Cymraeg syml ac yn gofyn cwestiynau priodol yn hyderus.

Mae bron pob un o’r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn dilyn storiâu ac ymateb yn aeddfed. Er enghraifft, maent yn ymuno drwy ddefnyddio ystumiau priodol a chreu siapau gyda'u cyrff ac yn arddangos creadigrwydd hyfryd wrth hedfan o amgylch yr amgylchedd fel Pili-pala.

Mae bron pob un o’r plant yn arbrofi gyda marciau drwy ddefnyddio amrywiaeth o wrthrychau. Er enghraifft, maent yn dynwared ymarferydd drwy farcio ar y papur gyda phensil i wneud arsylwadau am y plant eraill.

Mae bron pob un o’r plant yn datblygu eu medrau cydsymud yn briodol gan ddefnyddio cyfarpar chwarae mawr gyda rheolaeth dda. Er enghraifft, maent yn

ddefnyddio amrywiaeth o gratiau llaeth a darnau mawr o bren i greu llwybr rhwystrau. Maent yn dechrau defnyddio teclynnau bychan gyda rheolaeth dda.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dewis a defnyddio cyfarpar mathemategol priodol i ddatrys problemau ymarferol. Mae bron pob un yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd destunau pwrpasol. Er enghraifft, maent yn arddangos dealltwriaeth dda o faint a’r cysyniad o fawr a bach wrth holi am ffrwyth amser byrbryd. Mae bron pob un yn rhifo sawl darn o ffrwyth roeddent yn rhoi ar y ffon bren i greu cebab ffrwythau blasus.

Mae bron pob un o’r plant yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â’r hyn hoffent chwarae ag o. Maent yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnod estynedig ac yn arbrofi a dangos dyfalbarhad. Mae lleiafrif o blant yn datblygu medrau digidol priodol. Er enghraifft maent yn rheoli ceir trydanol syml ac yn defnyddio camera digidol i dynnu lluniau wrth chwarae.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau yn gyson gan hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol plant. Maent yn rhagweithiol wrth reoli unrhyw risgiau ac yn dilyn prosesau effeithiol i gadw plant yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad parhaus at eu poteli dŵr a’u bod yn gwisgo'n annibynnol wrth baratoi ar gyfer chwarae tu allan. Mae ymarferwyr yn deall pa gamau i’w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryder am ddiogelu. Maent yn gweithio’n dda fel tîm i sicrhau diogelwch y plant. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae’r holl ymarferwyr yn parchu teimladau a syniadau’r plant. Er enghraifft, maent yn gofyn iddynt a oes angen cymorth arnynt i olchi dwylo ac mae’r plant yn gyfforddus ac yn gyfarwydd â’r drefn.

Mae gan ymarferwyr berthynas garedig a gofalgar gyda’r plant. Maent yn siarad yn barchus gyda hwy ac yn dangos ddiddordeb a phleser. Maent yn rheoli unrhyw arwydd o wrthdaro posibl yn ofalus ac yn gyflym. Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith gan ymestyn geirfa'r plant yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn holi’r plant am rhannau o flodyn sy'n cael eu defnyddio wrth chwarae yn yr ardal ddŵr. Maent yn atgyfnerthu dysgu blaenorol yn effeithiol er enghraifft wrth atgoffa’r plant o'r hyn yr oeddent wedi'i ddarganfod am wahanol anifeiliaid mewn stori.

Mae’r ymarferwyr yn gweithredu strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol. Maent yn gyson yn eu canmoliaeth o blant pan fydd plentyn yn cwblhau tasgau penodol ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau. Maent yn gwerthfawrogi safbwyntiau plant ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag atynt. Maent yn sensitif i anghenion plant ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu geirfa wrth iddynt chwarae. Mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau i ddod a stori’n fyw gan ymestyn dychymyg y plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfnod datblygiad a'u hanghenion. Maent yn ymateb i anghenion unigol plant yn brydlon. Mae’r ymarferwyr yn ystyried syniadau’r plant ac yn ymateb i’w diddordebau

a’u chwilfrydedd gan ychwanegu gweithgareddau ac adnoddau pellach i gyfoethogi’r profiadau dysgu.

Mae'r ymarferwyr wedi ymrwymo i ddarparu ystod o weithgareddau a chyfleoedd chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn annog creadigrwydd plant trwy osod adnoddau naturiol a bywyd go iawn yn eu cornel chwarae rôl gartref. Mae’r ymarferwyr yn gwbl ymwybodol o ddatblygiad plant unigol ac yn darparu gweithgareddau sy’n briodol i oedran a chamau datblygiad unigolion. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, maent yn adolygu cynlluniau unigol plant yn rheolaidd ac yn diweddaru eu cofnod taith ddysgu. Maent yn gweithredu’n effeithiol ar gyngor gan wahanol asiantaethau i gefnogi anghenion plant unigol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r ymarferwyr yn deall gofynion y cwricwlwm i Gymru yn dda. Maent yn cynllunio’r ddarpariaeth yn ofalus i ennyn diddordeb y plant. Er enghraifft, maent yn cynllunio cyfleoedd i’r plant fynd allan i gasglu blodau a gwyrddni gan ddatblygu eu diddordeb yn y byd o’u cwmpas. Trwy ddarparu cyfnodau estynedig o chwarae di dor maent yn rhoi rhyddid i’r plant arbrofi ac ymgolli’n llwyr yn eu chwarae. Mae’r ymarferwyr yn ymyrryd yn ddoeth er mwyn cefnogi dysgu annibynnol y plant. Maent yn hyrwyddo medrau llythrennedd gynnar y plant yn llwyddiannus trwy eu hannog i ymddiddori mewn llyfrau gan drafod yr hyn sy’n digwydd mewn stori a mwynhau’r lluniau. Mae ymarferwyr yn cwestiynu'r plant yn effeithiol er mwyn ymestyn eu dysgu ac yn bwydo iaith yn gyson yn ystod y sesiynau. Er enghraifft, yn ystod amser stori maent yn defnyddio ystumiau ac yn addasu eu llais wrth bortreadu cymeriadau, gan ddenu'r plant i ymuno.

Mae’r ymarferwyr yn annog datblygiad medrau rhifedd y plant yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfrif sawl cwpanaid o flawd sydd angen i greu toes. Maent yn annog y plant i gyfatebu rhifau un i bump ac i barcio'r beiciau yn y man parcio gyda’r rhif sy’n cyfateb i rif y beic. Maent yn ymuno mewn gêm neidio gan annog y plant i gyfri’n gywir wrth neidio o sgwar i sgwâr. Maent yn cynnal sesiwn symud buddiol er mwyn i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y plant o gydbwysedd a sut i reoli eu cyrff yn llwyddiannus. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o’r diwylliant Cymreig yn dda. Er enghraifft, maent yn cynnal Eisteddfod i ddathlu Gŵyl Dewi. Maent yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau digidol y plant. Fodd bynnag, nid yw’r ychydig o adnoddau sydd ar gael yn caniatáu i’r plant ddatblygu eu medrau digidol yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo amrywiaeth a hawliau plant yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrywiaeth o lyfrau o bob rhan o’r byd ac o wahanol ddiwylliannau fel sail i drafodaeth gyda’r plant. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau i alluogi plant i ddysgu mwy am wyliau a thraddodiadau gan gynnwys Ramadan, Dydd Gŵyl Dewi a’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae’r ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth am ddatblygiad medrau plant yn effeithiol er mwyn cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae llyfrau taith y

plentyn yn cael eu cadw drwy gydol cyfnod y plant yn y lleoliad gan ddangos eu bod yn gwneud cynnydd priodol o'u man cychwyn. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn fedrus iawn yn y ffordd maent yn addasu i gefnogi pob plentyn. Mae ganddynt berthynas hyfryd gyda'r plant a maent yn rhyngweithio gyda hwy yn effeithiol dros ben. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau eglur i'r plant ac yn eu hailadrodd er mwyn atgyfnerthu'r hyn maent am i'r plant wneud. Er enghraifft, adeg byrbryd, maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir iddyntar sut i ddefnyddio'r offer i dorri'r ffrwyth.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn tanio chwilfrydedd ac yn annog plant i ymchwilio'n gyson. Mae bron pob un o'r adnoddau'n adlewyrchu'r amgylchedd naturiol ac yn cynnwys gwrthrychau dilys. Er enghraifft, maent yn darparu offer cegin go iawn fel tepot yn yr ardal chwarae rôl. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo amrywiaeth o offer mân a chwarae bloc yn hynod o dda, gan annog datblygiad medrau datrys problemau gwerthfawr ymysg y plant. Mae'r amgylchedd yn gyfoethog gyda dodrefn ac adnoddau o ansawdd uchel ac amlbwrpas. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud cynnydd rhagorol ym mhob maes datblygiad. Mae bron pob un o'r adnoddau ar lefel isel, sy'n galluogi plant i gael mynediad atynt yn llwyddiannus ac i fod yn hynod annibynnol yn eu chwarae.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel. Mae asesiadau risg trylwyr a chynhwysfawr ar waith ar gyfer pob maes. Mae adolygiadau rheolaidd yn eu lle i sicrhau bod diogelwch y plant yn derbyn sylw cyson. Mae ymarferwyr yn cynnal gweithgaredd glanhau cynhwysfawr, a gwiriadau manwl ar gyfer sicrhau ateb gofynion iechyd a diogelwch yr amgylchedd. Maent yn sicrhau bod yr holl wiriadau diogelwch gofynnol yn gyflawn ac yn dilyn gweithdrefnau caeth mewn perthynas ag ymwelwyr. Mae'r adeilad yn hynod lân ac mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol a chyson, fel diheintio byrddau a chadeiriau uchel. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid priodol yn ystod newid cewynnau ac amser bwyd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd eang yn darparu cyfleoedd dysgu a chwarae arloesol ac amrywiol ar gyfer pob oedran. Mae'r rhain yn cynnwys ystafell synhwyraidd, ystafell cysgu a gofod gwyrdd eang i ddatblygu dychymyg a sgiliau ymchwilio'r plant yn llawn. Mae plant hŷn yn cael mynediad parhaus at ofod awyr agored sbardunol a chreadigol. Mae hyn yn eu galluogi i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu chwarae yn eu hoff ardaloedd. Mae hyn yn sicrhau'r cynnydd a'r mwynhad mwyaf posibl. Mae'r ardal awyr agored ysgogol ar gael i'r plant iau, ac mae'n cael ei defnyddio'n gyson yn ystod y dydd. Mae arweinwyr yn darparu dillad ac offer tywydd gwlyb i'r holl blant a'r ymarferwyr i sicrhau mynediad i'r awyr agored ym mhob tywydd.

Mae arweinwyr yn darparu ardaloedd dynodedig i blant storio eu heitemau personol. Maent yn arddangos gwaith celf y plant yn ddeniadol ar draws y lleoliad. Mae ffotograffau o blant, staff a'u teuluoedd yn cefnogi ymdeimlad o berthyn ac yn hyrwyddo hunan-barch plant yn llwyddiannus dros ben. Mae arweinwyr wedi datblygu'r amgylchedd yn helaeth ers sefydlu'r lleoliad ac mae bellach yn cynnwys ystafell gyfarfod ddeniadol sy'n cael ei ddefnyddio gan grwpiau cymunedol. Mae

arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o offer a theganau yn arloesol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant, gan gynnwys eu treftadaeth Gymreig. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o'u cymuned leol a'r byd ehangach yn rhagorol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r arweinydd yn angerddol am ei gwaith ac yn ymfalchïo yn ei staff a'r plant a'u teuluoedd. Mae'n llwyddo cynnal ethos cryf o deulu, lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo'n hyderus i rannu ei deimladau, boed yn blentyn neu'n ymarferydd. Mae'n wybodus iawn am egwyddorion y cwricwlwm i Gymru ac yn rhannu'r wybodaeth hon gydag ymarferwyr gan arwain drwy esiampl. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau fod lles y plant a'r staff yn derbyn sylw manwl a fod yr ardaloedd dysgu yn ymgysylltu'r plant yn llawn. Mae meithrin ymdeimlad o berthyn yn rhan bwysig o holl waith y lleoliad.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn cefnogi pawb i wneud ei orau. Maent gan ymarferwyr wybodaeth fanwl am bob un plentyn a maent yn sicrhau eu bod yn cael eu hymestyn i gyrraedd eu potensial. Er enghraifft, mae proffil WAW yn galluogi pob ymarferydd i weld yn syth sut i gefnogi pob plentyn yn ystod y sesiynau. Mae'r pwyllgor rheoli yn rhannu gweledigaeth gref yr arweinydd ac maent yn cyd weithio er mwyn datblygu'r ddarpariaeth yn arbennig o dda. Mae ganddynt amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, sydd yn eu galluogi i gynnal a datblygu gwaith y lleoliad yn llwyddiannus iawn.

Mae arweinwyr wedi datblygu gweithdrefnau gwerthuso cadarn sy'n adnabod cryfderau a meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys yr holl randdeiliaid ac yn arwain at gynllun datblygu sy'n cynnwys camau pendant ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y gwaith hwn yn rheolaidd, er mwyn adnabod ei ddylanwad ar brofiadau a chynnydd y plant. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol y plant. Mae hyn yn cynnwys datblygu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr a darparu mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau digidol yn y gwahanol ardaloedd.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd rhagorol o'r ymarferwyr a'r adnoddau er mwyn cynnal safonau lles y plant. Maent yn datblygu'r amgylchedd dysgu'n hynod effeithiol ac o ganlyniad mae'r plant yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn gwneud defnydd da iawn o nifer o grantiau sydd yn eu galluogi i greu amgylchedd naturiol ac ysgogol i'r plant. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda phartneriaid amrywiol er mwyn datblygu'r ardal allanol a gweddnewid rhannau ohoni.

Mae gan arweinwyr gysylltiadau cryf a llwyddiannus gyda nifer o bartneriaethau o fewn y gymuned leol yn ardal y Bala. Er enghraifft, maent wedi creu ardal synhwyraidd ar gyfer y plant drwy haelioni busnesau lleol. Maent yn weithgar iawn yn y gymuned gan gefnogi prosiectau fel plannu bylbiau Cennin Pedr yn y dref i gofnodi digwyddiadau lleol. Maent hefyd yn cefnogi'r gymuned drwy gasglu sbwriel a chanu mewn cartref henoed. Maent yn cydweithio yn agos gyda'r ysgolion lleol ac yn cefnogi disgyblion o'r ysgol uwchradd trwy gynnig lleoliad ar gyfer profiad gwaith wrth

iddynt ddilyn cyrsiau sy’n arwain at ennill cymwysterau ym maes datblygiad a gofal gofal.

Mae’r arweinwyr yn gelfydd iawn yn rhannu llwyddiannau’r plant gyda rhieni drwy dudalen caeedig ar y we. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd un i un, ac mae pob rhiant yn derbyn pecyn cynhwysfawr sy’n crynhoi profiad eu plant yn llwyddiannus.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 27 Mehefin 2024